# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2016

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat** (09:15 - 09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

(09:30 - 10:30) (Tudalennau 1 - 21)

Ken Skates AM, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Simon Jones, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a Seilwaith TGCh, Llywodraeth Cymru
Rhodri Griffiths, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Y Briff Ymchwil

EIS(5)-12-16 (p1) Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

**Egwyl** (10:30 - 10:40)

## 3 Awdurdodau Lleol - Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru (I'w gadarnhau)

(10:40 - 11:40)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 4 Papurau i'w nodi

4.2 **Llythyr at y Cadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ynglŷn â'r diwydiant dur**

(Tudalen 22)

Dogfennau atodol:
Llythyr at y Cadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ynglŷn â'r diwydiant dur (Saesneg yn unig)

4.3 **Llythyr at y Cadeirydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch Gwasanaethau Rheilffyrdd**

(Tudalennau 23 - 25)

Dogfennau atodol:
Llythyr at y Cadeirydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch Gwasanaethau Rheilffyrdd

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a chyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 15 Rhagfyr 2016

## 6 Ystyried y dystiolaeth seilwaith ryngwladol - Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

(11:40 - 11:55)

## 7 Ystyried y themâu allweddol sy'n ymddangos - Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

(11:55 - 12:10)

## 8 Papur cwmpasu – Ymchwiliad i ddarparu masnachfraint rheilffyrdd a metro

(12:10 – 12:25) (Tudalennau 26 – 31)

Dogfennau atodol:

Papur cwmpasu – Ymchwiliad i ddarparu masnachfraint rheilffyrdd a metro

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWATH A SGILIAU**
**TYSTIOLAETH YSGSRIFENEDIG**
**COMISIWN SEILWAITH CENEDLAETHOL I GYMRU**

## Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i symud tuag at strategaeth fuddsoddi tymor hwy yn seiliedig ar wybodaeth ar gyfer seilwaith. Bydd y strategaeth hon yn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn galluogi prosiectau penodol i gael eu datblygu'n fwy effeithlon gan fod pobl Cymru yn deall eu pwysigrwydd yn well ac yn eu cefnogi'n fwy, gan gynnwys yr angen i sicrhau bod buddsoddiadau'r sector cyhoeddus yn cynnig gwerth am arian.

2. I helpu i gyrraedd y nod hwn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol cynghorol, anstatudol i Gymru i ddarparu cyngor strategol annibynnol ac arbenigol.

## Ymgynghoriad

3. Mae ymgynghoriad ar y gweill ar hyn o bryd sy'n gofyn am farn rhanddeiliaid am y bwriad i sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru i lywio a blaenoriaethu penderfyniadau buddsoddi mewn perthynas ag anghenion seilwaith tymor canolig i'r tymor hwy. Bydd yr ymgynghoriad yn rhoi cyfle i randdeiliaid roi eu barn ar sut y caiff y comisiwn ei sefydlu a'i redeg.

4. Cychwynnodd y cyfnod ymgynghori ar 17 Hydref 2016 a daw i ben ar 9 Ionawr 2017.

## Cylch Gwaith

5. Rydym yn rhagweld mai corff cynghori fyddai'r comisiwn, yn gyfrifol am ddadansoddi, cynghori a gwneud argymhellion ar anghenion seilwaith strategol tymor hwy Cymru dros gyfnod o 5-30 mlynedd drwy lunio adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru; yn strategol nid yn unig o ran maint neu gost prosiect unigol ond hefyd o ran effaith gyfunol bosibl prosiectau.

6. Byddai'r cylch gwaith yn cwmpasu'r holl sectorau seilwaith economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys ynni, trafnidiaeth, dŵr a charthffosiaeth, datrysiadau draenio, gwastraff, cyfathrebu digidol, rheoli llifogydd ac erydu arfordirol a byddai'n cwmpasu seilwaith datganoledig a seilwaith heb ei ddatganoli, gan adlewyrchu'r setliad datganoli a natur drawsffiniol seilwaith – er enghraifft y rhwydwaith rheilffyrdd.

7. Byddai'r cyfrifoldeb am bennu polisi, ynghyd â'r fframwaith rheoliadol a chynllunio, ac ar gyfer gwneud penderfyniadau buddsoddi lle bo hyn yn un o swyddogaethau'r llywodraeth, yn parhau i gael ei ysgwyddo gan Weinidogion Cymru ar gyfer seilwaith datganoledig, a chan Lywodraeth y DU ar gyfer seilwaith heb ei ddatganoli.

8. Er sefydlogrwydd ac atebolrwydd, ni fwriedir i'r comisiwn roi cyngor ar raglenni a gwaith y penderfynwyd arnynt eisoes, neu y penderfynir arnynt yn y dyfodol agos gan gyrff statudol a rheoliadol.

9. Y bwriad yw y byddai'r comisiwn yn dadansoddi anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol ac yn rhoi cyngor arnynt mewn modd integredig, gan ymdrin â rhagddibyniaethau mewn modd traws-sectoraidd. Gallai hefyd ystyried cyflawni ar sail trawsbynciol os bydd yn eu hystyried yn rhwystr i fodloni anghenion seilwaith, gan gynnwys llywodraethu, costau, cyllido a methodoleg rheoli rhaglenni/prosiectau.

10. Ni fyddai'r cylch gwaith yn cwmpasu seilwaith cymdeithasol megis ysgolion, ysbytai a thai. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae trefniadau sefydledig, effeithiol eisoes ar waith ar gyfer dadansoddi anghenion strategol tymor hwy yn y sectorau hyn a ddylai barhau i fod yn gyfrifoldeb i'r awdurdodau cynllunio a gwasanaethau perthnasol. Fodd bynnag, byddai'r cylch gwaith yn ymestyn i ddarparu cyngor ar y rhyngweithio rhwng seilwaith economaidd ac amgylcheddol a seilwaith cymdeithasol.

11. Byddai gwaith y comisiwn yn helpu i lywio cynlluniau buddsoddi mewn seilwaith tymor hwy Llywodraeth Cymru, ac wrth wneud hynny, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a fydd yn rhoi gwedd strategol tymor hwy ar anghenion cynllunio.

**Aelodaeth**

12. Y bwriad yw i'r comisiwn gynnwys uchafswm o 10 aelod gan gynnwys y Cadeirydd. Byddai pob aelod yn cael ei benodi ar sail ei wybodaeth a'i brofiad arbenigol, nid yn rhinwedd ei swydd. Byddai angen i aelodau allu meddwl a gweithredu ar draws sectorau; bod yn greadigol a chynhwysol o ran dadansoddi anghenion y dyfodol a'r heriau polisi cyhoeddus sy'n ein hwynebu, megis datgarboneiddio.

13. Byddai penodiadau'n cael eu gwneud drwy ymarfer penodiadau cyhoeddus yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Gweinidogol i Gyrff Cyhoeddus, yr egwyddorion o deilyngdod, tegwch a gonestrwydd, ac egwyddorion ehangach Nolan.

**Bod yn Agored ac yn Dryloyw**

14. Byddai'r comisiwn yn dadansoddi, yn cynghori ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas ag anghenion seilwaith tymor hwy Cymru drwy gyflwyno adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru. Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r comisiwn gyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar ei waith a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus bob blwyddyn yng Ngogledd, Canolbarth, De a Gorllewin Cymru i esbonio a hyrwyddo ei rôl a'i waith.

**Casgliad**

15. Mae amrywiaeth o fodelau eisoes yn bodoli a syniadau gwahanol ynghylch statws a chylch gwaith corff seilwaith. Ym marn Llywodraeth Cymru, byddai sefydlu comisiwn cynghorol, anstatudol yn gam cyntaf yn y broses o atgyfnerthu penderfyniadau a chyflawni mewn perthynas â seilwaith.

16. Yn dibynnu ar yr adborth o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn bwriadu sefydlu'r comisiwn erbyn haf 2017.

17. Mae Llywodraeth Cymru yn agored i newid statws a chylch gwaith y corff, os daw yn amlwg, drwy brofiad, bod manteision clir yn sgil gwneud hynny. Y bwriad fyddai cynnal a chyhoeddi adolygiad o statws a chylch gwaith y corff cyn etholiad nesaf y Cynulliad yn 2021.

Eitem 4.2

Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

The Rt Hon Greg Clark MP

Department for Business, Energy & Industrial Strategy
1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

T +44 (0) 20 7215 5000
E enquiries@beis.gov.uk
W www.gov.uk

Our ref: MCB2016/28144
Your ref:

Russell George AM, Chair
EIS Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CARDIFF, CF99 1NA

24 November 2016

Dear Russell

Thank you for your letter of 20 October to the Prime Minister in relation to the review that the Economy, Infrastructure and Skills Committee of the National Assembly for Wales recently held on steel industry. I am replying on her behalf, as the Secretary of State with responsibility for the steel sector.

Nick Hurd and I have been fully committed to working with the sector to understand and address the challenges it faces. We have both visited Port Talbot and I recently hosted a meeting with the CEOs of steel companies in the UK, including those based in Wales such as Tata, Liberty and Celsa and we remain in regular contact with the trade unions, as workforce representatives. We have also worked closely with the Welsh First Minister and Ken Skates, as the Cabinet Member for the Economy and Infrastructure. .

We were pleased to have the opportunity to set out to your Committee the action that the Government has already taken to support steel producers, including those in Wales. As you know, we have compensated the steel sector for the costs of climate change and renewable energy policy, with £111m paid to steel producers so far. We have also worked with other EU Member States to ensure steel producers are protected from unfair trade practices. There are now 39 trade defence instruments in place; and these measures have proved effective in reducing the level of steel dumped in the EU by 70-90%. In addition, we have taken action to secure a longer transition timetable for compliance with EU emissions regulations and reformed public procurement guidelines to enable public sector bodies to take account of social and economic factors when buying steel. We are also working with the Steel Council to develop a vision for a sustainable and competitive steel sector in the UK, which we aim to complete during the first quarter of 2017.

Whilst progress has been made, we are not complacent and accept that work remains to be done, within the UK and internationally.

I look forward to reading your committee's review once it is published.

Yours ever

Greg

**THE RT HON GREG CLARK MP**
Secretary of State for Business, Energy & Industrial Strategy

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee



Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Tachwedd 2016

**Gwasanaethau Trên**

Annwyl Russell

Fel y gwyddoch rwy'n siŵr, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad ar Wasanaethau Trên ar 6 Medi. Mae'r adroddiad yn ystyried pwerau a dylanwad ehangach Llywodraeth Cymru o ran seilwaith a gwasanaethau'r rheilffyrdd, a buddsoddiad cysylltiedig Llywodraeth Cymru (gan ganolbwyntio'n arbennig ar wariant rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2016). Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried perfformiad gwasanaethau ar y fasnachfraint ar gyfer Cymru a'r Gororau a'r cynlluniau ar gyfer caffael gwasanaethau Cymru a'r Gororau o 2018. Ystyriodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr adroddiad ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, y mae copi ohono wedi'i amgáu, yn ei gyfarfod ar 31 Hydref.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, bu'r Aelodau'n trafod a oeddent yn gweld unrhyw werth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gynnal ymchwiliad i wasanaethau trên, yn enwedig gan ein bod yn ymwybodol bod eich pwyllgor chi'n bwriadu cyhoeddi cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad i'r rheilffyrdd ym mis Rhagfyr, a'r ymchwiliad yn dechrau yn gynnar yn 2017. O ystyried hyn ynghyd ag ymchwiliad presennol y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, sy'n edrych ar y fasnachfraint rheilffyrdd, cytunodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i beidio â chynnal ymchwiliad, gan ei fod o'r farn y gallai'r gwahanol ymchwiliadau ddyblygu gwaith ei gilydd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Fodd bynnag, gofynnodd yr Aelodau imi ysgrifennu atoch i ofyn ichi ystyried rhoi sylw i'r pwyntiau canlynol yn eich ymchwiliad:

- Mae'r adroddiad yn trafod y pwerau a'r dylanwad cyffredinol sydd gan Lywodraeth Cymru dros fuddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd ac mae'n disgrifio cyfyngiadau perthynas gytundebol Llywodraeth Cymru â Network Rail. Nododd Aelodau yr enghraifft o Astudiaeth Achos 1 yn yr adroddiad am y gwelliannau i'r Orsedd a Chyffordd Saltney. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at dystiolaeth a roddwyd gan Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU i'r Pwyllgor Menter a Busnes yn y Pedwerydd Cynulliad, a oedd yn datgan nad oedd unrhyw fwriad i ailagor y trafodaethau am ddatganoli cyllid Network Rail. Serch hynny, rydym yn ystyried bod yr ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol am berthynas Llywodraeth Cymru â Network Rail yn haeddu gwaith craffu pellach.
- Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd y dull 'deialog gystadleuol' o ran caffael y fasnachfraint/Metro, a bwriad hyn, yn ôl adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, yw caniatáu i Lywodraeth Cymru lunio ateb ymarferol, addas i'r diben, i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru yn hytrach na nodi hynny ymlaen llaw. Serch hynny, mae'r adroddiad yn disgrifio sut y cyfeiriodd adolygiad Gateway cynharach at yr angen am fwy o eglurder ynghylch y canlyniadau a ddymunir gan gontract integredig a lleiafswm y gofynion y mae'n rhaid eu darparu drwy gaffael. Gwnaethom nodi argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol y 'dylai Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r broses gaffael, ddatblygu dull sy'n ei galluogi i ddangos gwerth am arian elfen masnachfraint y contract newydd, o'i gymharu â'r un gyfredol a masnachfreintiau eraill'. Dim ond yn rhannol y mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn, yn ôl pob golwg ar y sail y gallai hwn fod yn ymarfer anodd ac oherwydd ei bod o'r farn mai'r ffordd orau o ddangos gwerth am arian yw drwy ganolbwyntio ar ei phroses gaffael ei hun yn hytrach na gwneud yr hyn a allai fod yn gymariaethau artiffisial. Rydym o'r farn bod safbwynt Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r argymhelliad hwn yn haeddu gwaith craffu pellach, os yw am ddangos yn y pen draw ei fod yn cael bargen dda o'r hyn sy'n ymddangos fel contract gwerth biliynau o bunnoedd, ac yng ngoleuni rhywfaint o feirniadaeth o'r cytundeb masnachfraint presennol.
- Holodd yr Aelodau ynglŷn â gallu cyffredinol Llywodraeth Cymru i gynnal yr ymarfer caffael, yng nghyd-destun rhai o'r risgiau cynhenid a amlygwyd gan

brosesau masnachfraint blaenorol yn Lloegr. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn disgrifio'r trefniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i gefnogi'r broses gaffael, gan gynnwys sefydlu cwmni 'Trafnidiaeth Cymru' a Bwrdd Cynghori Strategol newydd (sydd â chylch gwaith ehangach). Byddem yn annog eich pwyllgor i gymryd tystiolaeth gan aelodau o'r Bwrdd Cynghori Strategol a chan gyfarwyddwyr gweithredol Trafnidiaeth Cymru (mae dau ohonynt ar secondiad o Lywodraeth Cymru). Efallai y bydd eich pwyllgor yn dymuno archwilio a oes modd i Lywodraeth Cymru ddangos bod sefydlu Trafnidiaeth Cymru yn darparu'r buddiannau a fwriadwyd, o ran cyflenwi sgiliau ac o ran costau.

- Yn olaf, rydym yn tybio y byddai unrhyw waith craffu pellach ar y cynlluniau caffael hefyd yn ystyried materion yn ymwneud â'r cyllid ar gyfer Metro De Cymru yng nghyd-destun canlyniad refferendwm y DU ar aelodaeth o'r UE, o ystyried bwriad Llywodraeth Cymru i wneud cais am arian Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i gefnogi'r prosiect.

Gobeithio bod y crynodeb hwn o'n trafodaeth o gymorth i'ch pwyllgor; byddwn yn croesawu cadarnhad o'ch cynlluniau i graffu ymhellach maes o law.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon